**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL, 16 GORFFENNAF 2026**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:**

Elwyn Jones, Sian Williams, Gwynfor Owen, Angela Russell, Beth Lawton, Beca Roberts, Berwyn Jones, Anwen Davies, Jina Gwyrfai, Linda Morgan, Rheinallt Puw, Menna Baines, Meryl Roberts, Wendy Cleaver

**Swyddogion yn bresennol:**

Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Courtney Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a Dinesig)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**

**Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd A Llesiant), Sian Edith Jones (Pennaeth Cynorthwyol Pobl Hyn ac Anableddau Corfforol a Synhwyraidd, Oedolion, Iechyd a Llesiant)**

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**

**Y Cynghorydd Menna Trenholme (Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd) Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd A Llesiant), Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol Adran Plant – Datblygiadau) Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)**

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**

**Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd A Llesiant), Alun Gwilym (Pennaeth Cynorthwyol Busnes), Jess Mullan (Rheolwr Prosiect) Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)**

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**

**Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd A Llesiant), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elin Walker Jones, Einir Wyn Williams, Gareth Coj Parry.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Bu i’r Cynghorydd Gwynfor Owen datgan buddiant nad oedd yn rhagfarnu ar gyfer eitem 5. Nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu felly ni adawodd y cyfarfod.

## 3. MATERION BRYS

Dim i’w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2026 a 4 Mehefin 2026, fel rhai cywir.

## 5. GWASANAETH GOFAL DYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant. Amlygwyd bod yr adran yn symud ymlaen oddi wrth y model traddodiadol o ganolfannau dydd tuag at gynnig mwy hyblyg a chymunedol eu naws. Nodwyd bod y person unigol yn ganolog i’r cynllun darpariaeth a bod llawer o wasanaethau amrywiol ar gael i siwtio amryw o anghenion gwahanol. Tywyswyd pawb trwy brif faterion yr adroddiad gan roi diweddariad o’r gwaith sydd yn mynd rhagddi. Amlygwyd y bwriad i foderneiddio adnoddau gofal dan bennawd ‘Gwynedd Ofalgar’ Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28, i alluogi pobl Gwynedd i fyw eu bywyd gorau o fewn eu cymunedau lleol.

Rhoddwyd trosolwg o’r ddarpariaeth sydd ar gael yng Ngwynedd, gan gynnwys Unedau Gofal Dydd Traddodiadol, Arbenigol (Dementia), Gofal dydd yng nghartrefi preswylwyr y sir a gwasanaethau gofal ysbaid/seibiant byr. Manylwyd ar y flaenoriaeth i gwrdd ag ystod eang o anghenion dwys ac i ddarparu cefnogaeth amrywiol a phersonol i bob unigolyn, sydd yn seiliedig ar asesiadau person-ganolog. Pwysleisiwyd yr angen i fod yn hyblyg i allu cwrdd ag anghenion unigol, i ddarparu adnodd sydd yn adlewyrchu dewis i bobl a disgwyliadau cymunedol heddiw. Eglurwyd ei fod yn hanfodol i gydweithio yn agos iawn efo partneriaid yn y bwrdd iechyd a’r trydydd sector, yn ogystal â’r gymuned, i sicrhau bod y modelau gofal yn ffynnu a bod anghenion mwy cymhleth unigolion yn cael eu cyfarch. Nodwyd bod arbenigedd gofal a chymunedol yn hollbwysig i allu creu pecyn gofal person-ganolog llwyddiannus. Atgyfnerthwyd bod y bartneriaeth rhwng y Cyngor a’r Bwrdd Iechyd yn allweddol i gwrdd â’r anghenion cynhwysfawr, megis darpariaeth gofal dydd Arbenigol (Dementia) ym Mhlas Hedd ym Mangor ac Ysbyty Dolgellau.

Cydnabuwyd y pwysau parhaus ar ofalwyr di-dâl a’r orddibyniaeth arnynt i gynnal sefyllfaoedd dwys ar draws y sir. Cydnabuwyd bod heriau amlwg yn y ddarpariaeth gofal cartref a bod rhai ardaloedd yn cael trafferth delio efo’r capasiti. Amlygwyd y flaenoriaeth i ddarparu ysbaid byr o ansawdd i ofalwyr di-dâl, ac i sicrhau gwerth ar gyfer yr unigolyn sydd yn derbyn gofal hefyd. Manylwyd ar y ddarpariaeth sydd ar gael i unigolion gydag anghenion llai dwys, gan nodi bod ystod eang o opsiynau ac eu bod yn hyrwyddo defnydd o weithgareddau yn y gymuned, megis cadw’n heini a Dementia Actif adiwallu anghenion cymdeithasol yn ogystal.

Amlinellwyd amcanion y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriwyd at y drefn beilot sydd bellach ar waith yn Nolgellau i ddatblygu model newydd o ofal seibiant dydd. Eglurwyd mai bwriad y peilot yw cynnig cyfleodd cymunedol o fewn y Cartref Gofal Cefn Rodyn, i ddarparu seibiant i ofalwyr a gweithgareddau cymdeithasol i unigolion. Nodwyd mai darpariaeth 2 ddiwrnod yr wythnos fydd hon, yn lolfa'r cartref i gefnogi oddeutu 5 unigolyn ar y tro. Nodwyd mai Age Cymru fydd yn hwyluso'r gweithgareddau, gyda staff y Cyngor yn darparu'r gofal angenrheidiol. Gobeithiwyd adnabod safle addas ym Mhorthmadog yn fuan i roi cefnogaeth bellach i unigolion sydd yn derbyn gofal gan ofalwyr di-dâl yn yr ardal honno. Ategwyd bod y model newydd yma yn sicrhau bod rheolaeth, annibyniaeth a mwy o ddewis gan unigolion i adeiladu ar eu cryfderau yn eu cymunedau wrth gymdeithasu a derbyn gofal a chefnogaeth wedi ei deilwra yn amrywiol ac addas iddynt yn benodol fel unigolion.

Croesawyd cwestiynau gan Aelodau. Yn ystod y drafodaeth, cododd y cwestiynau a sylwadau a ganlyn;

Wrth gyfeirio at y gwaith parhaus sydd yn digwydd i fonitro a datblygu'r ddarpariaeth ledled y sir, holodd Aelod sut mae'r adran yn monitro a mesur os ydi'r ddarpariaeth yn diwallu'r galw a beth sydd yn digwydd pan mae'r galw yn fwy na'r ddarpariaeth neu pan nad oes gan y Cyngor digon o adnoddau i ymateb i'r galw? Holwyd os oes unrhyw cynllunio o flaen llaw o ran hynny ac oes unrhyw waith lobio yn mynd rhagddi i sicrhau mwy o gyllid a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru?

Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y Timau Adnoddau Cymunedol yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Tîm Rheoli i adnabod yr angen a'r galw a sicrhau bod unrhyw ddiffyg neu anghenion sydd ddim yn cael eu diwallu yn dod i'w sylw yn rheolaidd. Sicrhawyd eu bod yn gweithio yn agos efo'r Tîm Llesiant i hybu a hyrwyddo defnydd o'r hybiau cymunedol a gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal. Nodwyd bod yr adran yn ymwybodol iawn o sefyllfaoedd penodol cymunedau Gwynedd oherwydd y nifer o staff sy'n gweithio yn agos efo teuluoedd a gofalwyr. Cadarnhawyd bod yr adran yn cymryd sylw o ddifri pan ddaw wybodaeth wrth law o unrhyw ddiffyg yn y gwasanaeth. O ran y gyllideb, cydnabuwyd bod heriau yn parhau wrth i'r gwasanaethau barhau i fod yn ddibynnol ar gyllid grantiau tymor byr a dros dro. Nodwyd bod y gwaith peilot yn Nolgellau a Porthmadog yn ddibynnol ar grant tymor byr, a bydd y ddarpariaeth yn cael ei fonitro i weld os oes modd wedyn cyflwyno cais am gyllid parhaol i gynnal y gwasanaeth.

Pwysleisiwyd bod partneriaeth y gwasanaeth efo cymunedau yn hollbwysig a bod llawer o wybodaeth yn dod gerbron yr adran trwy aelodau'r gymuned yn gofalu am gymdogion yn y gymuned. Tynnwyd sylw at y gwaith da sydd yn mynd rhagddo gan weithiwr allan y maes, a chyfeiriwyd at y defnydd o dechnoleg sydd yn cael ei ddatblygu, megis yr adnodd Helpu'n Hyn. Cyfeiriwyd at y rhaglen Dewis Cymru sydd yn y broses o gael ei ddatblygu, sydd yn nodi'r ddarpariaeth ar gael i unigolion o fewn ardaloedd eu hunain. Diolchwyd am y wybodaeth, gan ategu'r pwysigrwydd i aelodau craffu gallu gweld a dadansoddi mesuryddion yn weledol fel rhan o'r broses craffu.

Wrth gyfeirio at y gwaith ymgysylltu diweddar gyda dros 200 o bobl ac adborth defnyddwyr gwasanaeth, mynegodd Aelod byddai gweld tystiolaeth ac enghreifftiau o'r adborth yn cryfhau'r casgliadau yn yr adroddiad. Awgrymwyd byddai atodiad yn cynnwys ymatebion yn cefnogi'r adroddiad ac yn helpu cyfleu'r teimladau cymunedol

o ran pa waith sydd yn mynd yn dda a beth sydd angen ei wella. Cydnabuwyd y sylw gan nodi y gobeithiwyd bydd mesuryddion mewn lle yn fuan.

Wrth gyfeirio at y ddarpariaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dal, mynegodd Aelod nad yw'r ddarpariaeth sydd ar gael yn ddigonol i ofalwyr di-dal a bod cyfle wedi ei fethu yn yr adroddiad i lobio am fwy o gyllid gan y llywodraeth. Cydnabuwyd bod mwy o waith i wneud i wella'r ddarpariaeth ar frys bod angen rhoi clod i ofalwyr di-dal sydd yn cynnal y gymuned. Eglurwyd bod gwaith rhanbarthol yn mynd rhagddi i wella'r ddarpariaeth a sicrhawyd bydd y gwaith yma yn dod o flaen y pwyllgor craffu yn fuan.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod unigolion yn byw efo Dementia yn dod o dan adran Oedolion, ac nid yr adran Iechyd Meddwl.

Cyfeiriwyd at y map sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad i ddangos lleoliad daearyddol gwasanaethau a chanolfannau dydd, gan nodi bod blychau amlwg i weld yn y ddarpariaeth mewn ardaloedd cefn gwlad y sir. Mewn ymateb, sicrhawyd nad yw'r map yn cynnwys yr holl ddarpariaeth sydd ar gael yn ei gyfanrwydd. Cydnabuwyd bod hyn yn anodd ei gyfleu, ond sicrhawyd bod datblygiadau yn mynd rhagddo i ddatblygu pecynnau a darpariaeth gofal 'bespoke' yn yr ardaloedd lle nad oes canolfan cyfagos. Sicrhawyd bod gweithiwyr cefnogol yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau i bobl ac yn eu cludo i ganolfannau Gofal Dydd pan fo'n addas.

Nododd Aelod ei fod yn hollbwysig bod unigolion hyn ac iau efo problemau iechyd meddwl amrywiol yn derbyn mwy o ddarpariaeth gofal dydd er mwyn sicrhau darpariaeth i holl drigolion Gwynedd. Mewn ymateb, rhoddwyd sicrwydd bod adrannau yn cydweithio ac yn rhannu adnoddau ar draws timau er mwyn sicrhau bod cymaint o drigolion yn cael budd o'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd ar gael. Nodwyd bod fforwm oedolion bregus yn cael ei gynnal yn fisol i drafod sut i gyfarch y galw am wasanaethau i bobl sydd ddim (o rheidrwydd) yn cyrraedd y trothwy. Soniwyd eu bod yn trafod pa adnoddau sydd ar gael iddynt er mwyn gallu cynnal darpariaeth o ryw fath i bawb sydd ag anghenion. Ategwyd bod heriau yn parhau a bod adnoddau yn brin, ond sicrhawyd aelodau bod datblygiadau timau integredig cymunedol yn gwneud gwaith gwerthfawr wrth i arbenigwyr o bob maes drafod unigolion o fewn y gwasanaethau a pha adnoddau sydd ar gael iddynt. Pwysleisiwyd mai integreiddio a chyfuno adnoddau yw'r ffordd orau ymlaen i sicrhau darpariaeth i drigolion Gwynedd.

Mynegodd Aelod siom bod diffyg data a ffigyrau yn adroddiad Gwasanaethau Gofal Dydd gan nodi nad yw'n cyfleu darlun digon cynhwysfawr o'r sefyllfa yng Ngwynedd. Cwestiynwyd y modd cafodd y ffigyrau o 200 darpar ddefnyddwyr eu casglu ar gyfer yr ymgynghoriad a phryderwyd bod gorddibyniaeth yn parhau i roi pwysau a straen ar ofalwyr di-dal yn y gymuned. Holwyd sut mae modd gwella'r systemau mewn lle i sicrhau ansawdd cyson ar draws y sir. Mewn ymateb i hyn, cydnabuwyd bod y systemau casglu data yn ddiffygiol ac ymddiheurwyd am hyn. Sicrhawyd bydd gwell data cyfredol yn yr adroddiadau nesaf yn y maes hwn.

Mewn ymateb i ymholiad, manylwyd ar y gwaith peilot yn Nolgellau a Porthmadog. Eglurwyd ei fod yn blaenoriaethu unigolion sydd yn derbyn gofal gan aelod teulu a gofalwyr di-dal. Nodwyd ei fod ar fin cychwyn ym mis Medi gydag uchafswm o 5 o bobl yn derbyn gofal ysbaid 2 diwrnod yr wythnos. Soniwyd bod y Tîm Adnoddau cymunedol yn hyrwyddo hyn, ac yn cydweithio efo Dementia Actif. Mewn ymateb i

gwestiwn, cadarnhawyd mai'r gofalwyr di - dal fydd yn cludo'r unigolion yno yn unol â'r polisi a bydd hyn yn eu rhyddhau nhw i gael seibiant eu hunain. Er hyn, sicrhawyd bod modd trefnu cludiant trwy adnoddau amgen i unigolion sydd methu teithio i'r gwasanaeth gofal ysbaid eu hunain. Cadarnhawyd bydd Cydlynydd Age Cymru yn cydlynu ac yn rhedeg y gweithgareddau, gyda chefnogaeth staff Cefn Rodyn yn darparu gofal angenrheidiol. Nodwyd bod Age Cymru yn y broses o weithio i geisio sicrhau bod trafnidiaeth ar gael i ddod a nhw yna. Eglurwyd bydd y peilot yn cael ei werthuso mewn 6 mis i weld os oes modd cyflwyno cais am gyllid i barhau'r adnodd.

Soniodd Aelod bod trafnidiaeth yn parhau i fod yn heriol i unigolion sydd methu teithio i ganolfannau i dderbyn gofal ysbaid. Mynegwyd pryder am yr unigolion sydd yn byw yng nghefn gwlad sydd yn aml yn methu cymdeithasu ac yn teimlo yn ynysig oherwydd diffyg darpariaeth trafnidiaeth yn yr ardaloedd gwledig. Nodwydbod gweithwyr cefnogol yn gwneud gwaith da i sicrhau bod unigolion yn gallu mynychu gweithgareddau ysbaid ond cydnabuwyd bod hyn yn heriol ac nad oes modd cyrraedd bob unigolyn yn byw yng nghefn gwlad Gwynedd.

Holwyd beth sydd yn digwydd ar ôl i Gynllun y Cyngor 2023-28 dod i ben? Cyfeiriwyd at y gwaith sydd wedi mynd rhagddi yn yr adroddiad Llechen Lan i ragweld sefyllfa'r dyfodol. Pwysleisiwyd bod gwaith ataliol yn hollbwysig i gyfarch yr angen am ofal yn y dyfodol.

Croesawyd y gwaith i ddatblygu modelau newydd o ofal a chanmolwyd y defnydd o lyfrgelloedd ar draws y sir trwy'r gweithgareddau Awr Oed Gyfeillgar a phaned a sgwrs. Holwyd os oes rhestr aros i fynychu'r canolfannau gofal dydd a beth yw'r capasiti? Mewn ymateb, eglurwyd bod y sefyllfa yn amrywiol fesul bob achos unigol.

Holwyd am fwy o wybodaeth am y cartrefi preswyl. Croesawyd map manwl a chynhwysfawr yn y dyfodol sydd yn adlewyrchu'r holl ddarpariaeth amrywiol sydd ar gael. Mynegwyd awydd i gydweithio efo' r adran a holwyd os oes modd i'r adran ddiweddaru'r Cynghorwyr yn gyson am y gweithgareddau sydd yn mynd rhagddi er mwyn iddynt allu hyrwyddo'r gwasanaethau a digwyddiadau yn eu cymunedau. Holwyd os oes modd cynnal ymgynghoriad ar lefel mwy lleol yn y pentrefi? Deallwyd bod hyn yn ddibynnol ar wirfoddolwyr ac adnoddau - a chydymdeimlwyd bod yr adnoddau yn brin.

**PENDERFYNIAD**

1. **Derbyn a nodi'r adroddiad gan groesawu bod ystod o wasanaethau ar gael ond mynegi pryder**

- **Am gynaladwyedd gwasanaeth gan wirfoddolwyr**
- **bod diffyg trafnidiaeth cefn gwlad yn golygu nad oes modd i nifer fynychu neu gyrraedd gwasanaeth**
- **nad oes mynediad teg i ddarpariaeth ar draws y sir**

2. **Gofyn i'r aelod cabinet**

- **adolygu sut mae'r adran yn monitro galw a bodlonrwydd cwsmer, drwy gasglu data meintiol, a dangos gwir effaith y gwasanaeth ar lesiant unigolion a'u gofalwyr**

**• lobio llywodraeth Cymru i gyllido’r gwasanaeth dros y tymor hir yn hytrach na darparu grantiau**
**• Ystyried sut y gellir cydweithio ar draws y Cyngor a gyda phartneriaid i wella darpariaeth gofal dydd i ofalwyr di-dal a'r rhai sydd gyda chyflyrau iechyd meddwl ac adrodd yn ôl ar hynny i’r pwyllgor craffu gofal**
**• Ystyried sut y gellir monitro ansawdd gwasanaeth a geir gan wirfoddolwyr a sicrhau cynaladwyedd y gwasanaeth**
**• Darparu adroddiad gwerthuso ar gynllun peilot gofal ysbaid dydd a fydd yn cychwyn mis Medi yn Cefn Rodyn, Dolgellau pan yn amserol**
**• Sicrhau bod mynediad teg at ddarpariaeth ar draws y sir**

## 6. ADRODDIAD GRŴP TASG A GORFFEN CWYNION ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT AC ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen, Cwynion, Adran Oedolion Iechyd a Llesiant ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Rhoddwyd trosolwg o’r drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod o’r grŵp tasg, a gafodd ei sefydlu i drafod materion a godwyd o’r adroddiad blynyddol ar Gwynion Ymholiadau a Diolchiadau Gwasanaethau Cymdeithasol ar 25 Medi 2026. Diolchwyd i’r swyddogion am fod mor barod i rannu gwybodaeth. Amlinellwyd y prif bwyntiau a godwyd yn y cyfarfod;

- Trafodwyd y cwynion yng nghyd-destun Canllawiau Cenedlaethol 2024 a mynegwyd pryder bod y canllawiau wedi eu dyddio mor bell â hynny.
- Ystyriwyd natur y cwynion a’r modd cawsant eu datrys gan y Cyngor
- Ystyriwyd y rhesymeg tu cefn i’r cwynion a’r rhai achwynwyr cyson. Trafodwyd sut mae’r swyddogion yn ymdrin ag achwynwyr cyson yn effeithlon a sut mae datrysiad derbyniol yn cyrraedd y trothwy o fod yn gwyn ffurfiol neu swyddogol.
- Trafodwyd effeithlonrwydd a hygyrchedd y taflenni cofnodi cwyn ar gyfer y ddwy adran dan sylw a’r daflen gwyn corfforaethol
- Edrychwyd ar y cwynion o ran themâu a thrafodwyd a oedd themâu penodol yn ymddangos. Deallwyd bod llawer o gwynion yn cael eu cyflwyno ar hap a ddim yn dilyn patrwm penodol.
- Ystyriwyd y nifer o gwynion a dderbynnir yn yr iaith Saesneg. Soniwyd bod swyddogion yn rhagweld mwy o gwynion Saesneg gyda’r defnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial. Nodwyd bod rhai cwynion yn amlwg yn barod wedi eu llunio gyda chymorth deallusrwydd artiffisial.
- Ystyriwyd os oes unrhyw gyswllt rhwng y ffrydiau gwaith rhaglen ymateb adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder a’r protocol a pholisïau cwynion.

Cyflwynwyd yr argymhellion a gafwyd er mwyn annog mwy o drigolion i gyflwyno cwynion a chanmoliaethau. Croesawyd yr adroddiad a bu thrafodaeth ynghylch y canfyddiadau a’r argymhellion. Mynegodd Aelod rhwystredigaeth nad yw gofalwyr di-dâl yn gallu cyflwyno cwyn ar ran unigolyn sydd yn derbyn gofal neu wasanaeth penodol.

Wrth ystyried yr argymhellion, mynegodd Aelod ei fod yn awyddus i ychwanegu argymhelliad bod gofalwyr di-dâl sydd yn gofalu am unigolion yn gallu cyflwyno cwyn

ar ran unigolyn bregus. Eglurwyd nad yw hyn yn bosib ond derbyniwyd bod hyn yn rhwystredig ac yn anodd iawn i ofalwyr. Ymhelaethwyd bod modd ystyried be all wella'r sefyllfa i sicrhau gwell gofal i unigolion bregus sydd ddim yn derbyn gofal neu wasanaeth o ansawdd. Derbyniwyd y sylwadau.

**PENDERFYNIAD**

**a. Gofyn i'r Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant ohebu gyda Llywodraeth Cymru er mwyn datgan pryder nad yw canllawiau ymdrin â chwynion wedi eu diweddaru ers 2014 ac nad oes ystyriaeth briodol i gyfryngau cymdeithasol fel modd i achwynwyr gysylltu gyda chwynion.**

**b. Cysoni'r wybodaeth a gyflwynir mewn tablau yn yr adroddiadau am gwynion gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa mewn modd cynhwysfawr a chyfredol**

**c. Argymell i'r Aelod Cabinet perthnasol adolygu taflen cofnodi cwynion corfforaethol a'i diwyg a'i gwneud yn debycach i daflenni cofnodi cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn hybu a chynyddu hygyrchedd taflenni Cymraeg.**

**ch. Gofyn i'r adrannau sy'n delio gyda chwynion nodi bod modd cysylltu â'r Cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol ar y taflenni cofnodi cwyn.**

**d) gofyn i'r Cyngor ystyried ffyrdd o dderbyn cwynion gan ofalwyr.**

## 7. LLECHEN LAN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant. Cyfeiriwyd at gyhoeddiad adroddiad Llechen Lan ym mis Medi 2024 sydd yn amlinellu amcanestyniadau a fyddai'n effeithio ar wasanaethau i bobl hyn y 20 mlynedd nesaf. Rhagwelwyd bydd y boblogaeth yn newid dros y 20 mlynedd nesaf ac yn effeithio yn sylweddol ar y galw am ofal yng Ngwynedd. Eglurwyd bydd angen ystyried y gallu i ddiwallu'r angen a rhagfynegi'r pwysau ariannol disgwyliedig. Wrth ystyried diweddariad data 2026, pryderwyd bod y gwir sefyllfa yn mynd i fod yn fwy eithafol a llawer gwaeth na'r rhagolygon gwreiddiol. Eglurwyd bod yr adroddiad yn manylu a'r rhagolygon i fyny at 2047.

- Tynnwyd sylw at yr effaith mae'r amcanestyniad poblogaeth yn ei gael ar amcanestyniadau gweithlu gan nodi bod y cynnydd yn frawychus o ystyried y galw fydd ar wasanaethau a'r angen am staff i ofalu am y boblogaeth hyn.
- Hyderwyd bod yr adrannau yn cyflawni o fewn y rhaglen waith ond cydnabuwyd bydd angen gwneud llawer mwy er mwyn gallu cyflawni o fewn y galw cynyddol dros y blynyddoedd nesaf.

- Eglurwyd bydd angen gwneud mwy a chreu strategaethau amgen er mwyn gallu dygymod efo'r galw yn y dyfodol.
- Pwysleisiwyd bod angen mwy o sylw cenedlaethol ar hyn ac i gyfeirio nol at hyn yn gyson dros y blynyddoedd i ddod.

Croesawyd sylwadau a chwestiynau gan Aelodau;

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod y rhagamcanion yn benodol i Wynedd ac yn seiliedig ar ddata lleol. Eglurwyd bod pobl yn dueddol o fyw yn hirach gyda gwaeledd ac angen mwy o ofal am gyfnod hirach, sydd yn rhoi pwysau ar adnoddau a gwasanaethau. Nodwyd bod y disgwyliad oes iach yn disgyn yng Ngwynedd, oherwydd ffactorau amrywiol megis gor-bwysau, ac felly bydd mwy o bobl angen gofal yn gynt. Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd gwaith ataliol i geisio dygymod efo'r heriau cynyddol.

- Mynegwyd pryder am gynnwys yr adroddiad a'r sefyllfa fregus sydd yn wynebu'r sir. Bu trafodaeth ynglŷn â'r diffyg pobl ifanc i wasanaethu pobl hyn, ac anogwyd yr adrannau i weithredu ar y rhaglen waith sydd gerllaw ar unwaith. Cwestiynwyd pam nad yw'r Adran Addysg yn rhan weithredol o'r rhaglen waith, gan nodi pwysigrwydd y genhedlaeth ifanc. Ymhelaethwyd bod pobl ifanc y sir yn greiddiol i ffyniant y sir, gan nodi bod gan yr Adran Addysg ddyletswydd i sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn yr addysg gywir o sut i fyw bywyd iach fel rhan o'r gwaith ataliol. Dadleuwyd bod angen hyrwyddo swyddi gofal i bobl ifanc er mwyn eu denu at y gweithle gofal. Nodwyd ei fod yn allweddol i ddarparu cyfleodd gyrfa i bobl ifanc y sir er mwyn ceisio sicrhau nad ydynt yn gadael y sir i chwilota am waith a magu teulu tu hwnt i Wynedd. Derbyniwyd y sylwadau a sicrhawyd bod modd cydweithio efo'r adran addysg fel rhan o'r gwaith yma.

- Yn ystod y drafodaeth, awgrymodd Aelod y posibilrwydd o wobrwyo pobl yng Ngwynedd i gael mwy o blant, er mwyn cynyddu'r boblogaeth i sicrhau bod digon o bobl yng Ngwynedd i ofalu am y genhedlaeth hyn. Cydnabuwyd bod hyn yn broblem genedlaethol a rhyngwladol erbyn hyn a'i fod yn fater dyrys a chymhleth. Bu drafodaeth ynghylch newidiadau a disgwyliadau cymdeithasol, datblygiadau dulliau atal cenhedlu, ac effeithiau tlodi fel rhan o hyn.

- Ystyriwyd y nifer o weithiwr tramor sydd yn mewnfudo i'r ardal ac yn darparu gofal i'r genhedlaeth hyn yng Ngwynedd a chydnabuwyd bod y sir yn ddibynnol ar weithwyr tramor ar hyn o bryd. Rhagwelwyd bydd problemau ychwanegol gyda hynyn y dyfodol agos a nodwyd bydd angen cymryd hyn mewn i ystyriaeth wrth lunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol hefyd. Nodwyd bydd adroddiad ar y Fframwaith Angor cael ei chyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi / Hydref fydd yn dynodi amcanion y Cyngor ar gyfer hyrwyddo bywyd iach i gynnal y dyfodol. Nodwyd ei fod wedi cael ei gyflwyno trwy iechyd cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i weld beth gall y Cyngor ei wneud i gefnogi bobl i fyw yn iach, hapus ac yn heini o fewn eu cymunedau.

- Holodd Aelod am fwy o wybodaeth o ran y tai gofal ychwanegol sydd ar y gweill yng Ngwynedd. Mewn ymateb, cadarnhawyd mai tai gofal ychwanegol i ddarparu gofal i gefnogi pobl hyn i fyw yn fwy annibynnol yw rhain. Cadarnhawyd bod 3 yng Ngwynedd ar hyn o'r bryd, yn y Bala, Penrhosgarnedd

a Hafod y Gest ym Mhorthmadog. Manylwyd ar y cartrefi gofal, gan nodi eu bod yn cynnwys bwyty a mannau hygyrch cymunedol i bobl fynychu fel y maent yn dymuno. Nodwyd bod modd addasu'r tai yn unol ag anghenion personol y tenantiaid er mwyn sicrhau fod unigolion yn gallu parhau i fyw o fewn eu cymunedau cyn hired a sydd yn bosib. Eglurwyd nad yw rhain yn gweithredu fel cartref preswyl. Eglurwyd bod y Cyngor wedi comisiynu darn o waith yn ddiweddar gan fudiad 'Housing Lynn' sydd yn arbenigwyr yn y maes tai ar draws y wlad. Tynnwyd sylw at ddarganfyddiadau'r adroddiad sydd yn amlygu'r angen am wahanol letya i bobl hyn yng Ngwynedd dros yr 20 mlynedd nesaf i gyd-fynd efo amserlen llechen lan. Nodwyd ei fod yn amlygu pa fath o letya sydd ei angen, ac ym mha ardaloedd, ac mae hyn yn cynnwys tai gofal ychwanegol. Pryderwyd bod hyn am gostio miliynau i'r Cyngor a bod cynlluniau yn cymryd amser i'w sefydlu. Cadarnhawyd bod tai ychwanegol ym Mhenrhos yn rhan o'r cynllun yma.

- Fel rhan o'r drafodaeth, soniwyd am waith yr Academi Gofal. Manylwyd ar y cynllun, gan nodi bod llwybr gyrfa clir i unigolion ennyn profiad a chymwysterau yn y maes gofal, wrth dderbyn tal am eu gwaith. Cydnabuwyd bod angen mwy o gyllid i ehangu'r ddarpariaeth yma a sicrhawyd pawb ei fod yn llwyddiant ar hyn o'r bryd a bod llawer o bobl ifanc yn awyddus i ymuno a chymhwyso yn y maes.

- Bu drafodaeth ynghylch y gweithlu yn y maes gofal. Eglurwyd bod y datblygiadau yn sicrhau bod mwy o ryddid a dewis i bobl benderfynu pa fath o ofal maent yn dymuno, yn unol â'u hanghenion personol. Cadarnhawyd bod hyn yn lleihau'r angen a'r pwysau ar gartrefi gofal traddodiadol, ac yn ehangu'r ddarpariaeth sydd ar gael gan wahanol bobl, megis gofalwyr di-dal gyda chefnogaeth. Eglurwyd bod taliadau uniongyrchol i ofalwyr yn lleihau'r gofyn ar ddarpariaeth gofal traddodiadol.

- Holwyd os yw'r adran yn hyderus bod modd recriwtio a chadw staff ychwanegol sydd ei angen er mwyn cyfarch y galw ar wasanaethau? Gofynnwyd os ydi'r adran wedi modelu be fydd effaith y twf ar y galw ar y gweithlu a'r staff? Mewn ymateb, cadarnhawyd bod yr adran wedi bod yn edrych ar gynllunio gweithlu ar y cyd efo adnoddau dynol. Nodwyd bod bwriad i benodi swyddog cynllunio gweithlu yn y maes gofal oherwydd yr heriau recriwtio. Gobeithiwyd bydd y swyddog yn gyrru ymlaen ar lawer o'r awgrymiadau a godwyd yn y drafodaeth. Nodwyd bod bwriad i gyflwyno adroddiad i'r pwyllgor yn fuan ar y llif gwaith yma.

- Gofynnwyd os ydi'r adran wedi modelu be fydd effaith y twf yn y galw? Holwyd os oes unrhyw drafodaethau yn mynd rhagddi gyda cholegau lleol, y Bwrdd Iechyd a darparwyr addysg annibynnol i edrych ar ddatblygu a chynyddu'r gweithlu? Mewn ymateb, cadarnhawyd bod y gwaith yma yn mynd rhagddi a bod datblygiadau ar y gweill. Nodwyd bod trafodaethau cyson yn digwydd gyda phartneriaid i ehangu addysg y maes gofal a datblygu sgiliau er mwyn hyrwyddo gwaith gofal yng Ngwynedd. Nodwyd bod y trafodaethau hefyd yn digwydd yn genedlaethol. Gobeithiwyd bod yr adroddiad Llechen Lan yn dangos bod y Cyngor yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar flaen y gad, ac

yn gweithio i gael gwasanaeth cynaliadwy i ofalu am y genhedlaeth hyn, er gwaethaf yr heriau parhaus.

- Mynegwyd syndod bod llawer o bobl ifanc yn cymhwyso yn y maes gofal yng Ngwynedd a methu cael swydd yn lleol. Nodwyd bod hyn yn creu anawsterau difrifol yn y maes, gan nad oes digon o gyllid i ddarparu swyddi i unigolion sydd wedi cymryd amser i dderbyn addysg ac yn gorfod symud i ddod o hyd i waith. Pwysleisiwyd bod angen edrych ar y model o fewn y gweithlu.

- Cyfeiriwyd at ddarpariaeth gofal 'palliative' i drigolion yng Ngwynedd. Mynegodd Aelod bryder bod llawer o bobl yn marw oherwydd diffyg darpariaeth gofal a bod y galw am wasanaethau mor uchel. Mynegwyd rhwystredigaeth yn yr amseroedd aros ar gyfer ambiwlans yn genedlaethol. Pwysleisiwyd bod angen darparu triniaeth briodol i bobl yn brydlon. Holwyd os yw'n bosib cael data'r nifer o farwolaethau yng Ngwynedd ac o ba achos, er mwyn ceisio cynllunio i leihau'r niferoedd a darparu gofal prydlon i bobl mewn angen. Mewn ymateb i hyn, nodwyd bod hyn yn rhan o drafodaethau gwaith ataliol yr adran.

- Fel rhan o'r sgwrs ynghylch darpariaeth gofal i bobl hyn, mynegodd aelod rhwystredigaeth nad oes yr un ddarpariaeth ar gael i bobl iau sydd yn dioddef problemau iechyd meddwl. Holwyd os oes modd ehangu'r ddarpariaeth cartrefi gofal i gynnwys pobl iau sydd yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl.

- Cwestiynwyd pam fod adran 4 yn yr adroddiad, sydd yn dynodi'r camau nesaf yn wag? Holwyd pa benderfyniadau strategol penodol fysa'r bwrdd llechen lan yn chwilio am gan y Pwyllgor craffu i liwio'r gwaith nesaf? Mewn ymateb i'r arsylwad, eglurwyd fod yr adran yma yn wag yn fwriadol er mwyn i'r swyddogion trafod y camau ymlaen gydag aelodau'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yng Nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth. Cyfeiriwyd at y bwriad i graffu'r mater yn barhaus fel rhan o'r gwaith datblygiadol dros y blynyddoedd sydd i ddod.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad a'r rhaglen waith ond mynegi pryder ynghylch maint yr her ddemograffig a amlygir yn y data diweddaraf.**

**Argymell i'r Aelod Cabinet y dylai bwrdd Llechen Lan ddatblygu cynllun gweithredu manwl gyda blaenoriaethau cerrig milltir a mesurau llwyddiant clir gan rhoi sylw penodol i'r gweithlu, tai gofal ychwanegol, cynaliadwyedd ariannol y rhaglen, datblygu gwasanaethau ataliol a ffordd arloesol o ddarparu gofal, hyrwyddo hunan ofal ataliol a chydweithio gyda'r adran addysg er mwyn cynnwys pobl ifanc yn y rhaglen waith.**

**Cyflwyno diweddariad pellach i'r pwyllgor o fewn 12 mis ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau bwrdd Llechen Lan, gan gynnwys data cyfredol ar fewnfudo a marwolaethau, a'r rhaglen waith i ddelio gyda heriau recriwtio a gweithlu maes gofal.**

## 8. COMPACT TRYDYDD SECTOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant. Wrth gyfeirio at yr adroddiad, amlygwyd bod y trydydd sector yn hanfodol i waith amryw o wasanaethau ac adrannau ar draws y Cyngor, ac yn elfen annatod o'r gwaith cefnogi trigolion yng Ngwynedd. Nodwyd bod y Compact yn gosod fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector. Nodwyd bod y Trydydd Sector yn cynnwys ystod eang o elusennau, mudiadau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol sydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at lesiant pobl Gwynedd a darparu gwasanaethau sy'n ategu gwaith y Cyngor.

Eglurwyd bod y fframwaith newydd ar gyfer y berthynas yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol i bobl Gwynedd. Ymfalchïwyd yn y perthynas agos gyda'r trydydd sector, sydd yn cynorthwyo'r ddarpariaeth effeithiol er budd cymunedau Gwynedd.

Fel rhan o'r compact, nodwyd bod rôl allweddol i'r Cyngor a'r Trydydd Sector gydweithio a datblygu wrth hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chymunedol. Nodwyd bod y Cyngor yn cydweithio yn agos iawn efo Mantell Gwynedd i ddatblygu'r compact. Sicrhawyd bod y sgyrsiau datblygiadol ynghylch y trydydd sector yn digwydd gyda chymorthMantell Gwynedd er mwyn sicrhau perthynas gweithgar ac effeithlon.

Cydnabuwyd bod heriau parhaus ar y daith efo cydweithio gydag asiantaethau allanol, ac amlygwyd bod y cytundeb Compact yn cynorthwyo'r broses o sefydlu gwerthoedd ac egwyddorion cydweithio fewn y perthynas er mwyn grymuso cymunedau a rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf. Sicrhawyd bod y Cyngor wedi bod yn ymgynghori yn helaeth ac wedi derbyn llawer o adborth, sydd wedi ei ymgorffori yn y ddogfen Compact.

Bu cyfle i Aelodau mynegi sylwadau a chyflwyno cwestiynau;

- Holwyd os oes modd darparu enghreifftiau penodol o broblemau a godwyd gyda'r trefniadau dan y cytundeb Compact blaenorol, a sut fydd y cytundeb Compact newydd yn mynd i'r afael a'r broblemau a'r heriau yma? Mewn ymateb, cydnabuwyd mai tasg heriol yw rhoi enghreifftiau penodol heb dynnu sylw cyhoeddus at rhai problemau sydd wedi codi rhwng rhai asiantaethau. Er hyn, eglurwyd bod anghytundebau wedi codi dros y blynyddoedd am resymau megis cyllid, grantiau sydd ar gael a darpariaeth. Eglurwyd bod rhwystredigaeth wedi codi o ran gallu'r Cyngor i roi arian tymor hir a thymor byr, gan y trydydd sector. Nodwyd bod cynlluniau tymor hir y trydydd sector yn aml yn gyfyngedig oherwydd diffyg cyllid tymor hir.

- Gofynnwyd be fydd yn wahanol i sefydliadau'r trydydd sector ac i drigolion Gwynedd o ganlyniad i fabwysiadu'r Compact hwn o'i gymharu efo'r hen gompact? Mewn ymateb, sicrhawyd bod y Compact newydd yn gosod amcanion i geisio cyllido sefydliadau trydydd sector yn well ac yn blaenoriaethu cefnogaeth ariannol er mwyn sicrhau gwell darpariaeth gynaliadwy i'r gymuned. Nodwyd bod y Compact newydd yn gyfle i adnewyddu'r berthynas ers i ddeddfau newydd llesiant y dyfodol gael eu grymuso a'i fod yn gyfle i'r Cyngor

blaenoriaethu'r perthynas efo'r trydydd sector er mwyn cyflawni darpariaeth gyson a llwyddiannus. Diolchwyd i'r swyddogion sydd wedi gweithio ar adnewyddu'r Compact gan nodi ei fod wedi ei osod yn haws o lawer i ddeall ac yn fwy hygyrch i bawb. Credwyd bydd hyn yn gwella'r perthynas yn y pendraw gan nodi disgwyliadau clir o'r cytundeb a fydd yn gosod sail gadarn ar gyfer gweithio yn effeithlon yn y dyfodol.

- Cyfeiriwyd at y modd mae'r Compact yn anelu at alluogi trigolion a chymunedau i ffynnu. Nodwyd ei fod yn cynnig mesur llwyddiant trwy gwestiynau eang megis 'a yw'r partneriaethau wedi cryfhau diwylliant o gydweithio'. Holwyd sut fydd y Cyngor yn mesur os ydi hyn yn digwydd o ganlyniad uniongyrchol i wella'r trefniadau? A gofynnwyd pa ddangosyddion penodol fydd yn cael ei defnyddio i ddangos y gwelliant yma? Mewn ymateb i'r cwestiynau, sicrhawyd bod y Compact yn gosod y sail ar gyfer grymuso cymunedau trwy gryfhau'r berthynas a gosod disgwyliadau rhwng yr asiantaethau. Cyfaddefwyd eu bod yn gwestiynau heriol i ateb, gan nodi bod mesuryddion a dangosyddion yn heriol i sefydlu. Sicrhawyd bod deilliannau'r Compact Trydydd Sector i weld ar draws y Cyngor ac ar draws gwasanaethau'r sir, trwy gefnogaeth ddeilliannol y perthynas. Nodwyd bod llai o bobl yn disgwyl am wasanaethau gofal cartref, a thrafnidiaeth yn parhau i wella darpariaeth. Nodwyd bydd yr adran yn ystyried datblygu dangosyddion a mesuryddion ar y cyd efo'r trydydd sector ac yn dod yn ôl i'r pwyllgor efo unrhyw ddatblygiadau.
- Gofynnodd Aelod sut fydd y cyngor yn sicrhau nad ydi'r grŵp cyswllt trydydd sector yn cael ei dominyddu can sefydliadau mwy sydd efo mwy o gapasiti i gymryd rhan? Holwyd pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod sefydliadau sydd ddim yn cael eu cynrychioli ar y grŵp, yn cael cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau? Mewn ymateb i hyn, sicrhawyd nad ydi hyn wedi bod yn broblem efo'r Compact yn flaenorol. Nodwyd bod pob asiantaeth yn cael cyfle teg i fod yn rhan o drafodaethau datblygol a sicrhawyd bod cynrychiolaeth eang o'r sectorau gwahanol o fewn y trydydd sector a'u bod yn arddel eu cyfrifoldebau o ddifri. Mewn ymateb i ymholiad, sicrhawyd bod cynrychiolwyr o bob mudiad trydydd sector yn cael gwadd i fod yn rhan o'r grŵp cyswllt.

- Tynnwyd sylw at bryderon Archwilio Cymru ynglŷn â chyfleoedd a gollwyd o ran mentrau cymdeithasol a gofynnwyd pa dystiolaeth fydd yn dangos bod Gwynedd yn gwneud gwell defnydd o fentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Mewn ymateb i hyn, nodwyd y gwaith yma yn deillio o'r bryderon a godwyd gan Archwilio Cymru ac yn dynodi dyletswyddau i'r cyngor a mudiadau'r trydydd sector. Ymhelaethwyd bod Mantell Gwynedd wedi bod yn rhan allweddol o ddatblygiad y Compact i sicrhau bod y cynllun yn effeithiol. Sicrhawyd bod Mantell Gwynedd yn defnyddio dulliau cydnabyddedig o fesur llwyddiant mentrau cymunedol sydd yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddatblygu systemau cyffelyb hefyd.

- Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd at y ffaith bod degau o fudiadau trydydd sector yng Ngwynedd heb eu hymgorffori yn y compact yn ogystal â llawer o grwpiau answyddogol sydd yn dod at ei gilydd i drefnu pethau ac yn darparu llawer o gefnogaeth i'r gymuned. Diolchwyd iddynt am eu gwaith gan gydnabod

bod llawer mwy i wneud i gefnogi'r mudiadau bach er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaeth a chefnogaeth yn ddiogel o fewn y gymuned.

- Wrth sôn am y Grŵp Cyswllt Trydydd Sector, cyfeiriwyd at y modd mae Mantell Gwynedd yn cydweithio gyda'r sefydliadau Trydydd Sector i ddewis cynrychiolwyr addas ar gyfer aelodaeth o'r Grŵp Cyswllt. Holwyd sut bydd cynrychiolwyr y Cyngor yn cael eu dewis o feysydd gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trydydd sector. Mewn ymateb, cadarnhawyd mai cyfuniad o swyddogion ac Aelodau Cabinet ac Aelodau fydd yn gynrychiolwyr yn y grŵp.

- Gofynnwyd pwy sydd yn adolygu cartrefi cefnogol y sir? Mynegwyd anfodlonrwydd gyda'r ffaith bod y darparwr yn cael ei arolygu ac nid y cartref a'r gwasanaeth ei hun. Mynegwyd ei fod yn hynod bwysig bod y Cyngor felly yn arolygu'r sefydliadau unigol o fewn y sir er mwyn sicrhau safon dderbyniol o ofal a chefnogaeth i drigolion Gwynedd. Mewn ymateb i'r sylwadau, eglurwyd bod cyfrifoldeb dros unigolion yn parhau i fod ar y Cyngor, hyd yn oed pan mae unigolion yn mynd i mewn i gartref cefnogol trydydd sector. Sicrhawyd bod arolygaeth gyson yn parhau i sicrhau fod y gwasanaeth o safon, trwy gyfarfodydd rheolaidd a pherthynas agos gyda'r gweithwyr cymdeithasol. Ymhelaethwyd ar hyn, gan nodi bod y Cyngor yn gweithio yn agos iawn gyda mudiadau megis Seren ac Anheddau, ac yn monitro'r ddarpariaeth yn gyson wrth i swyddogion ymweld â'r sefydliadau a'u harolygu.

- Wrth gyfeirio at nodyn Archwilio Cymru fod awdurdodau lleol mewn sefyllfa i wneud mwy i uchafu effaith y trydydd sector, sicrhau gwell gwerth am arian, holwyd pwy fydd yn gyfrifol am hyn ac yn monitro sut fydd yr arian yn cael ei wario? Mewn ymateb i hyn, eglurwyd bydd data yn cael ei adrodd yn rheolaidd a bydd Mantell Gwynedd yn cynorthwyo'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian. Eglurwyd bod nifer fawr o gytundebau yn mynd trwy'r uned comisiynu sydd yn sicrhau, mesur a monitro effeithiau'r gwasanaethau i sicrhau gwerth am arian. Awgrymwyd byddai'n fuddiol i gynrychiolydd o Fantell Gwynedd fynychu'r pwyllgor tro nesaf yn ystod y drafodaeth ynghylch y Cytundeb Compact.

## PENDERFYNIAD

**Derbyn yr adroddiad.**

**Argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Compact ar yr amod eu bod yn**

**• ddarparu cynllun gweithredu ategol yn nodi cyfrifoldebau, amserlenni, adnoddau, mesuriadau llwyddiant a threfniadau adrodd**

**• Cyflwyno adroddiad rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu bob 2 flynedd.**

### 9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2026/27

Cyflwynwyd y Blaen raglen gan yr Uwch Ymgynghorydd Craffu. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cynnwys a'r eitemau sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn 2026/27.

Penderfynwyd addasu rhywfaint ar y blaen raglen wrth symud adroddiad Cyfiawnder Trwy Dewrder i gyfarfod Tachwedd 2026. Penderfynwyd symud adroddiad Gofal Plant i gyfarfod mis Ionawr a symud Adroddiad Blynyddol Cwynion o fis Tachwedd i fis Medi.

**PENDERFYNIAD**

**Mabwysiadau y blaen raglen gyda'r addasiadau canlynol:**

**1. Symud adroddiad Cyfiawnder Trwy Dewrder o gyfarfod Medi 2026 i gyfarfod Tachwedd 2026**

**2. Symud adroddiad Gofal Plant i gyfarfod mis Ionawr**

**3. Symud Adroddiad Blynyddol 2025-26 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau - Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant o fis Tachwedd i fis Medi**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben am 15:30yp

-----------------------------------

Cadeirydd